# Datganiad polisi diwygiedig drafft PackUK ar fodiwleiddio ffioedd gwaredu gwastraff

Mae Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Pecynwaith a Gwastraff Pecynwaith) 2024 (y cyfeirir atyn nhw yn y ddogfen yma fel "Rheoliadau 2024") yn ei gwneud yn ofynnol i PackUK gyhoeddi ei ddatganiad polisi ar fodiwleiddio ffioedd gwaredu gwastraff pecynwaith ar gyfer cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr (EPR). Mae modiwleiddio yn gymwys i'r holl becynwaith cartref sy'n destun i ffioedd gwaredu'r EPR dros wastraff pecynwaith.

Mae'r datganiad yma yn nodi sut y bydd PackUK yn addasu (neu'n "modiwleiddio") ffioedd gwaredu gwastraff pecynwaith cartref i adlewyrchu i ba raddau y mae'r pecynwaith hwnnw'n amgylcheddol gynaliadwy ac i roi cymhelliad i gynhyrchwyr i ddefnyddio pecynwaith sy'n fwy cynaliadwy yn amgylcheddol.

Dylid darllen y datganiad yma ynghyd â'r ffioedd wedi'i cadarnhau y mae PackUK yn eu cyhoeddi ar GOV.UK wrth iddyn nhw ddod ar gael.

*[dalfan ar gyfer crynodeb o sut rhannodd PackUK y datganiad drafft a'r sylwadau a ddaeth i law]*

## Beth sydd wedi newid

Mae'r datganiad hwn yn disodli'r datganiad a gyhoeddodd PackUK ym mis Mehefin 2025. Mae'n diweddaru'r lluosyddion modiwleiddio (y cyfeirid atyn nhw o'r blaen fel "ffactorau modiwleiddio") sy'n cael eu defnyddio i gynyddu ffioedd coch ar gyfer blynyddoedd asesu 2027 i 2028 a 2028 i 2029. Does dim newid yn y lluosydd modiwleiddio a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer blwyddyn asesu 2026 i 2027. Mae'r datganiad yma hefyd yn newid sut y bydd pecynwaith meddygol uniongyrchol yn cael ei fodiwleiddio o flwyddyn asesu 2028 i 2029 y mlaen, a sut y dylid rhoi gwybod amdano ar gyfer 2027.

## Sut mae modiwleiddio'n gweithio

Bydd PackUK yn parhau i ddefnyddio ailgylchadwyedd fel mesur cynaliadwyedd amgylcheddol, fel y'i haseswyd gan y fethodoleg asesu ailgylchadwyedd (RAM) ar gyfer cyfnod y datganiad yma. Mae'r cynhyrchwyr yn rhoi gwybod am yr holl becynwaith cartref o fewn y rhychwant sydd â sgôr o goch, melyn neu wyrdd, yn ôl yr RAM.

Mae ffi sylfaenol a gyhoeddir gan PackUK yn cael ei chodi ar becynwaith y rhoddir gwybod amdano fel melyn o dan yr RAM. Mae PackUK yn cyfrifo ac yn cyhoeddi ffi sylfaenol ar gyfer pob deunydd, ar sail costau gwaredu'r awdurdodau lleol.

DRAFT

Mae’r ffioedd ar gyfer pecynwaith y rhoddir gwybod amdano fel coch yn cael eu cynyddu trwy luosi'r ffi sylfaenol melyn â'r lluosydd modiwleiddio perthnasol yn y tabl "lluosyddion modiwleiddio ar gyfer pecynwaith coch y flwyddyn" yn y datganiad yma.

Mae'r refeniw a godir o'r ffioedd ychwanegol a godir ar becynwaith coch yn cael ei rannu'n gyfartal ar draws pecynwaith y rhoddir gwybod amdano fel gwyrdd, gan ostwng y ffioedd ar gyfer deunyddiau gwyrdd islaw'r ffioedd sylfaenol. Mae union faint y disgowntiau sydd ar gael ar gyfer deunyddiau gwyrdd yn cael ei bennu yn ôl faint o becynwaith coch a roddir ar y farchnad, a'r lluosydd modiwleiddio.

## Lluosyddion modiwleiddio ar gyfer blynyddoedd asesu 2027 i 2028 a 2028 i 2029

Mae'r datganiad yma yn diweddaru'r lluosyddion modiwleiddio sy’n cael eu defnyddio i gynyddu ffioedd coch ar gyfer blynyddoedd asesu 2027 i 2028 a 2028 i 2029. Bydd hyn yn cynyddu'r ffioedd ar gyfer pecynwaith coch ac yn sicrhau bod disgowntiau mwy yn y ffioedd ar gael ar gyfer pecynwaith gwyrdd. Does dim newid yn y lluosydd modiwleiddio ar gyfer blwyddyn asesu 2026 i 2027, a fydd yn dal yn 1.2.

Ar gyfer pob blwyddyn asesu a drafodir gan y datganiad yma, bydd y lluosydd modiwleiddio ar gyfer pecynwaith coch fel y’i disgrifir yn y tabl ar luosyddion modiwleiddio ar gyfer pecynwaith coch fesul blwyddyn.

### Tabl: lluosyddion modiwleiddio ar gyfer pecynwaith coch fesul blwyddyn

| **Blwyddyn asesu** | **Blwyddyn galendr a ddefnyddir ar gyfer cyfrifo ffioedd** | **Lluosydd modiwleiddio ar gyfer pecynwaith coch** |
|---|---|---|
| 2026 i 2027 | 2025 | 1.2 |
| 2027 i 2028 | 2026 | 2.0 |
| 2028 i 2029 | 2027 | 2.4 |

## Pecynwaith meddygol

Mae PackUK yn cydnabod bod pecynwaith meddygol yn dod o dan reolau diogelwch meddygol llym.

O dan reoliad 64(10) o Reoliadau 2024, rhaid i PackUK ystyried y ddeddfwriaeth sy'n gymwys i becynwaith meddygol, ac sy'n effeithio ar allu’r cynhyrchwyr i ddefnyddio pecynwaith sy’n fwy cynaliadwy yn amgylcheddol.

Mae pecynwaith meddygol, fel y'i diffinnir o dan reoliad 2(2) o Reoliadau 2024, yn cael ei drin yn wahanol i becynwaith arall a rhaid rhoi gwybod amdano o dan wahanol godau:

- coch - meddygol

DRAFT

- melyn - meddygol
- gwyrdd - meddygol

## Modiwleiddio ar gyfer pecynwaith meddygol (blwyddyn asesu 2027 i 2028)

O ran rhoi gwybod am ddata 2026 o dan RAM 1.1, bydd yr holl becynwaith meddygol yn dal i gael ei asesu fel 'gwyrdd - meddygol', 'melyn - meddygol' neu 'coch – meddygol' a bydd yn cael ei fodiwleiddio yn unol â'r sgoriau RAM yma.

Os yw'ch pecynwaith yn bodloni'r gofynion o fod yn goch yn rhinwedd gofyniad rheoleiddiol (RBVORR) fel y nodir yn RAM 1.1, rhaid rhoi gwybod amdano fel 'melyn - meddygol' a bydd yn cael ei fodiwleiddio yn unol â ffioedd melyn. Mae'r gofynion ar roi gwybod ac ar dystiolaeth ar gyfer RBVORR i'w gweld yn RAM 1.1.

## Modiwleiddio ar gyfer pecynwaith meddygol (blwyddyn asesu 2028 i 2029 ymlaen)

Ar gyfer data y rhoddir gwybod amdano yn 2027 ac yn y blynyddoedd i ddod (blwyddyn asesu 2028 i 2029 ymlaen), bydd pecynwaith meddygol uniongyrchol sy'n dod o dan y diffiniadau canlynol yn cael ei fodiwleiddio'n wahanol:

- pecynwaith uniongyrchol sydd mewn cysylltiad uniongyrchol â chynnyrch meddyginiaethol, fel y'i diffinnir o dan 2(2) o Reoliadau 2024, neu gynnyrch meddyginiaethol milfeddygol, fel y'i diffinnir o dan 2(2) o Reoliadau 2024
- pecynwaith uniongyrchol sydd mewn cysylltiad uniongyrchol â dyfeisiau meddygol, fel y'u diffinnir o dan 2(2) o Reoliadau 2024, a dyfeisiau meddygol diagnostig in vitro, fel y'u diffinnir yn 2(1) o Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002

Pan fydd y mathau yma o becynwaith meddygol uniongyrchol yn cael eu hasesu fel rhai coch neu felyn o dan yr RAM, dylid rhoi gwybod amdanyn nhw fel 'melyn – meddygol' a chodir y ffi sylfaenol melyn ar gyfer y categori pecynwaith perthnasol. Pan fydd y mathau yma o becynwaith meddygol uniongyrchol yn cael eu hasesu fel gwyrdd o dan yr RAM, dylid rhoi gwybod amdanyn nhw fel 'gwyrdd – meddygol' a chodir y ffi wyrdd ar gyfer y categori pecynwaith perthnasol.

Mae'n rhaid i becynwaith meddygol arall nad yw'n dod o dan y diffiniadau yma gael ei asesu o hyd a rhaid rhoi gwybod amdano fel 'gwyrdd - meddygol', 'melyn - meddygol' neu 'coch - meddygol' fel y bo'n briodol a bydd ffioedd wedi'u modiwleiddio'n cael eu codi ar y rhain yn unol â'r sgoriau RAM yma.

*[dalfan i nodi bod y canllawiau ar roi gwybod am becynwaith meddygol yn RAM 2027 wedi'i diweddaru hefyd yn unol â'r dull yma]*

DRAFT

## Cyfrifo ffioedd gwaredu gwyrdd

Mae'r cyfrifiad ar gyfer modiwleiddio ffioedd gwaredu gwastraff pecynwaith cartref sydd â sgôr gwyrdd RAM yn dechrau trwy gyfrifo maint y refeniw ychwanegol a gynhyrchir gan y lluosydd modiwleiddio o'i gymhwyso at ddeunyddiau pecynwaith RAM. Yna rhennir y refeniw ychwanegol yma â swm y tunelledd gwyrdd wedi'i luosi â'i ffi waredu briodol.

Mae hyn yn cyfrifo'r disgownt ffioedd sydd ar gael a all gael ei gymhwyso at yr holl ffioedd gwaredu gwastraff pecynwaith cartref sydd â sgôr gwyrdd RAM, tra'n cynnal cyfanswm gwerth y ffioedd gwaredu sy'n cael eu talu ar draws yr holl becynwaith sy'n hafal i hynny cyn modiwleiddio.

Wedyn cymhwysir y disgownt yma at ffi waredu'r gwastraff pecynwaith cartref sydd â sgôr gwyrdd RAM ar gyfer categori deunydd penodol trwy luosi ei ffi waredu briodol ag un minws y disgownt a gyfrifwyd.

$$Ffi_Waredu_Gwyrdd_i = Ffi_Waredu_i \left[ 1 - \frac{\text{cyfanswm premiwm a godir ar ddeunyddiau coch ar draws pob deunydd}}{\text{swm (tunelledd gwyrdd ar y farchnad} \cdot \text{ffi waredu ar gyfer pob deunydd yn ei dro)}} \right]$$

Mae'r ffi waredu gwyrdd yn hafal i'r ffi waredu wedi'i lluosi ag un, minws cyfanswm y premiwm a godir ar ddeunyddiau coch ar draws pob deunydd, wedi'i rannu â swm y tunelledd gwyrdd ar y farchnad, wedi'i luosi â'r ffi waredu ar gyfer pob deunydd yn ei dro.

Yn ffurfiol, gellir ysgrifennu'r hafaliad hwn fel a ganlyn.

$$Ffi_Waredu_Gwyrdd_i = Ffi_Waredu_i \left[ 1 - \frac{\sum_{i=1}^{n} (Ffi_Waredu_i \cdot PG_Coch_i \cdot (ModCoch - 1))}{\sum_{i=1}^{n} (PG_Gwyrdd_i \cdot Ffi_Waredu_i)} \right]$$

Mae'r ffi waredu gwyrdd ar gyfer deunydd i yn hafal i'r ffi waredu wedi'i lluosi ag un, minws cymhareb. Rhifiadur y gymhareb yw'r swm ar draws holl ddeunyddiau'r ffi waredu, wedi'i luosi â'r gyfran premiwm coch a'r addasydd coch, minws un. Yr enwadur yw swm y gyfran premiwm gwyrdd, ar draws pob deunydd, wedi'i luosi â'r ffi waredu.

Lle 'i' yw'r gyfres o 8 categori deunydd:

- PG_Coch yw maint y deunyddiau RAM sydd â sgôr coch a gyflenwyd yn y farchnad, mewn tunelli
- PG_Gwyrdd yw maint y deunyddiau gwyrdd RAM a gyflenwyd yn y farchnad, mewn tunelli

- ModCoch yw'r lluosydd modiwleiddio a gymhwysir at ffioedd deunydd pecynwaith â sgôr coch RAM (y ffi waredu wedi'i luosi ag 1.2, 1.6 neu 2, gan gynyddu dros y 3 blynedd)
- Ffi_Waredu yw'r ffi waredu ar gyfer pob categori deunydd
- Ffi_Waredu_Gwyrdd yw'r categori ffioedd gwaredu gwyrdd RAM a godir fesul tunnell, gyda ffi wahanol yn cael ei chodi ar gyfer pob categori deunydd

## Enghraifft ddarluniadol wedi'i symleiddio

I symleiddio, dim ond 3 chategori deunydd sydd ar y farchnad. 1,000 tunnell o blastigau anhyblyg ar y farchnad, 2,000 tunnell o bapur a 3,000 tunnell o wydr.

Mae dadansoddiad yr RAM o'r categorïau hyn fel a ganlyn:

- plastig anhyblyg - 60% gwyrdd, 30% melyn, 10% coch (600 tunnell o wyrdd, 300 tunnell o felyn, 100 tunnell o goch)
- papur - 50% gwyrdd, 30% melyn, 20% coch (1000 tunnell o wyrdd, 600 tunnell o felyn, 400 tunnell o goch)
- gwydr - 70% gwyrdd, 20% melyn, 10% coch (2100 tunnell o wyrdd, 600 tunnell o felyn, 300 tunnell o goch)

Dyma'r ffioedd gwaredu ar gyfer y categorïau hyn:

- plastig anhyblyg - £423
- Papur - £196
- gwydr - £192

Mae'r lluosydd modiwleiddio coch yn 2 waith y ffi waredu.

### Enghraifft o gyfrifiad ffioedd gwaredu gwyrdd plastig anhyblyg

$$Ffi_Waredu_Gwyrdd_{plastig_anhyblyg} = 423 \left[ 1 - \frac{((423100\ tonnes \cdot (2-1)) + (196 \cdot 400\ tonnes \cdot (2-1)) + (192 \cdot 300\ tonnes \cdot (2-1))}{423 \cdot 600\ tonnes + 196 \cdot 1000\ tonnes + 192 \cdot 2100\ tonnes} \right]$$

Hafaliad ar gyfer y ffi waredu gwyrdd ar gyfer plastig anhyblyg. Mae'r ffi yn hafal i 423 wedi'i luosi ag un, minws ffracsiwn. Rhifiadur y ffracsiwn yw: 423,100 tunnell wedi'i luosi â (dau minws un), plws 196 wedi'i luosi â 400 tunnell wedi'i luosi â (dau minws un), plws 192 wedi'i luosi â 300 tunnell wedi'i luosi â (dau minws un). Enwadur y ffracsiwn yw: 423 wedi'i luosi â 600 tunnell, plws 196 wedi'i luosi â 1,000 tunnell, plws 192 wedi'i luosi â 2,100 tunnell.

DRAFT

Enghraifft o'r hafaliad rhifiadol ar gyfer y ffi waredu gwyrdd plastig anhyblyg

$$= 423\left[1 - \frac{178{,}300}{853{,}000}\right] = 423 \cdot [0.7909730] = £334.58$$

Gwerthusiad rhifiadol o'r fformiwla ffioedd gwaredu gwyrdd. Mae'r mynegiad yn symleiddio i 423 wedi'i luosi ag un minws 178,300 wedi'i rannu ag 853,000, sy'n hafal i 423 gwaith 0.790973, gan roi gwerth terfynol o £334.58.

Mae'r disgownt ar gyfer pecynwaith gwyrdd â sgôr RAM ar gyfer pob categori deunydd yn un minws 0.7909730 = 20.903%

Byddai hyn yn cael ei gymhwyso at bob pecynwaith gwyrdd sydd â sgôr wyrdd RAM, ar draws pob categori deunydd.

Gan fod gwerth y pot ailddosbarthu yn dibynnu ar faint o ddeunydd pecynwaith a sgôr goch RAM a gyflenwyd, a chan fod y gyfran ohono yn dibynnu ar faint o ddeunydd pecynwaith â sgôr wyrdd RAM a gyflenwyd, dim ond ar ôl i'r holl ddata gael ei gyflwyno ar gyfer blwyddyn adrodd benodol y gellir cyhoeddi'r ffioedd modiwleiddio terfynol.

Mae'r dull o fodiwleiddio sy'n cael ei ddefnyddio gan PackUK yn gweithredu ar draws pob categori deunydd, gan ddarparu cymhellion cyson i gynhyrchwyr newid i becynwaith mwy ailgylchadwy.

## Y camau nesaf

Bydd PackUK yn gwahodd ac yn ystyried barn y diwydiant ar gyfeiriad y modiwleiddio yn y dyfodol mewn Galwad am Dystiolaeth yn gynnar yn 2027.

Bydd PackUK yn adolygu'r datganiad yma cyn diwedd 2028 i 2029 ac yn cyfleu ei bolisi modiwleiddio yn y dyfodol ar gyfer 2029 i 2030.

DRAFT